CYLCHLYTHYR FFÊS 2

YSGOL BRO IDRIS

Cyngor Ysgol

Mae Cyngor Ysgol Ffês 2 wedi bod yn parhau gyda'u gwaith yn ystod yr hanner tymor cyntaf ac wedi cynnal dau gyfarfod ar-lein. Cawsom gyfle i drafod llwyddiannau dysgu ar-lein Ysgol Bro Idris a chasglu syniadau ar sut i ddatblygu hyn ymhellach. Gwyliwch allan am holiadur!

Cyngor Iaith

Trefnodd y Cyngor Iaith gystadleuaeth sgwennu stori y tymor hwn i holl ddisgyblion yr ysgol. ac mae cynlluniau cyffrous ar y gweill i gyhoeddi Cylchgrawn Ysgol cyn diwedd y flwyddyn. Byddwch yn barod hefyd am ein gweithgareddau Dydd Gwyl Dewi.

Dyddiadau Allweddol

01/03/21 - Dydd Gwyl Dewi
05 - 14/03/21: Wythnos Wyddoniaeth y DU
26/3/21: Adroddiadau interim i bawb
26/3/21: HMS
(dim ysgol na gwersi ar-lein i'r disgyblion)
29/3/21 - 9/3/21: Gwyliau'r Pasg
31/5/21 - 4/6/21: Hanner Tymor
19/7/21: Gwyliau'r Haf

Cystadleuaeth Crempog

Cofiwch am gystadleuaeth yr adran Dechnoleg sef coginio ac addurno crempog wythnos nesaf! Cewch farciau am greadigrwydd ac arddangos amrywiaeth o sgiliau megis cymysgu. torri a chyflwyno. Cofiwch roi llun o'r crempog ar Google Classroom erbyn Chwefror 18. Pob lwc i bawb!

Her Celf Mrs Lloyd

Bydd Mrs Lloyd yn gosod her Celf ar gyfer disgyblion blwyddyn 3 - 6 bob prynhawn Dydd Mercher am 13:30. Dewch i'r sesiwn Teams i weld beth fydd yr her! Bydd fideo yn cael ei rannu i'ch helpu chi. Dyma fideo yr wythnos yma:

Sesiynau Eon

Diolch anferth i bawb sydd wedi bod yn ymuno â sesiynau CA2 Eon. Dywed Eon mai'r record yw 104 o ddisgyblion mewn 1 sesiwn ac ei fod eisiau torrir record cyn gynted â phosib! Pob Dydd Mawrth am 13:30.

Dolgellau i Doha

Mae'r app 'Strava' wedi bod yn gweithio'n galed iawn dros yr wythnosau diwethaf gyda nifer o rieni. disgyblion. athrawon. cymorthyddion a glanhawyr yn tracio'r holl filltiroedd maent wedi cerdded pob dydd i gyrraedd ein nod o gyrraedd Qatar. Llongyfarchiadau mawr i bawb wnaeth gymryd rhan. rydym wedi cyrraedd Doha gydag 1 diwrnod i sbario. Byddwn yn anelu am Cape Town. De Affrica hanner tymor nesaf!

Nosweithiau Rhieni

Newyddion cyffrous i athrawon. rhieni a disgyblion - mae'r ysgol wedi buddsoddi yn 'School Cloud'. Bydd 'School Cloud' yn ein galluogi i gynnal nosweithiau rhieni ar-lein. Mae'r wefan yn galluogi rhieni i wneud apwyntiadau gydag athrawon ar amser cyfleus. yn atgoffa rhieni o'r amseroedd hyn ac yn eu gosod ar amserlen ar gyfer y noson. Ar y noson. bydd rhieni ac athrawon yn gallu gweld a chlywed ei gilydd dros y sgrîn. Gobeithiwn yn fawr y bydd hyn yn fodd effeithiol o gyfathrebu gyda rhieni a thrafod cynnydd ein disgyblion. Mi fydd dyddiadau i ddilyn.

Pwyntiau Cyswllt Ffês 2

Mewn cyfnod mor anodd a digynsail. cofiwch ein bod yma i gefnogi pob rhiant a disgybl. Os ydych yn awyddus i drafod unrhyw fater mae croeso i chi gysylltu gyda ni.

Pennaeth Cynorthwyol Ffês 2
Mr Steffan Rhys Nutting

Anogwr Dysgu Safonau a Lles Ffês 2
Mrs Nia Davies